

Atodiad 1 – Cynlluniau sydd ar y gweill

Cynllun	Dyddiad	Manylion
Grantiau Bach - Amgylcheddol	Mae disgwyl i'r cyfnod datgan diddordeb agor ym mis Mai	Cynllun i gefnogi gwahanol ymyriadau rheoli tir ac i ddarparu cymorth cyfalaf ar gyfer gwelliannau amgylcheddol ar ffermydd er mwyn gwella ansawdd ein hadnoddau naturiol.
Grantiau Bach – Tyfu er mwyn yr Amgylchedd	Mae disgwyl i'r cyfnod datgan diddordeb agor ym mis Mehefin	Cynllun peilot i annog pobl i dyfu cnydau a thir glas er mwyn darparu budd amgylcheddol fel cnydau protein, gwyndynnydd cymysg a chnydau gorchudd er budd amgylcheddol, bioamrywiaeth a chynhyrchu.
Y Cynllun Troi at Ffermio Organig	Mae disgwyl i'r cyfnod datgan diddordeb agor ym mis Gorffennaf	Cynllun i gefnogi ffermwyr i droi at ddefnyddio systemau cynhyrchu organig.
Grantiau Bach – Effeithlonrwydd	Mae disgwyl i'r cyfnod datgan diddordeb agor ym mis Mai	Cynllun i gefnogi buddsoddiad mewn cyfarpar a thechnoleg newydd er mwyn gwella perfformiad technegol, ariannol ac amgylcheddol busnesau fferm.
Cynllun Garddwriaeth - Datblygu	Mae disgwyl i'r cyfnod datgan diddordeb agor ym mis Ebrill	Cynllun i ddarparu cymorth i sector garddwriaeth Cymru.
Cynllun Garddwriaeth – Cychwyn	Mae disgwyl i'r cyfnod datgan diddordeb agor ym mis Mai	Cynllun i gefnogi newydd-ddyfodiaid i sector garddwriaeth Cymru.
Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau	Mae disgwyl i'r cyfnod datgan diddordeb agor ym mis Gorffennaf	Cynllun i ddarparu cymorth drwy grantiau cyfalaf ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith i wella arferion rheoli a storio maethynnau ar ffermydd.

Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau	Mae disgwyl i'r cyfnod datgan diddordeb agor ym mis Mehefin	Cynllun i ddarparu cymorth drwy grantiau cyfalaf er mwyn gwella trefniadau rheoli maethynnau drwy fuddsoddi mewn seilwaith gorchuddio presennol ar iardiau ffermydd.
Creu Coetiroedd (Cynlluniau)	Mae'r cyfnod datgan diddordeb ar agor	Mae'r cynllun yn cynnig grantiau o rhwng £1,000 a £5,000 er mwyn datblygu cynlluniau ar gyfer creu coetiroedd newydd.
Creu Coetiroedd (Plannu)	Mae disgwyl i'r cyfnod datgan diddordeb agor ym mis Awst	Bydd cynllun yn agor a fydd yn cefnogi ein hymrwymiad i ehangu coetiroedd a amlinellir yn Cymru Sero Net ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i greu Coedwig Genedlaethol i Gymru.
Adfer Coetiroedd	Mae'r cyfnod datgan diddordeb ar agor	Mae'r cynllun yn seiliedig ar Gynllun Glastir a oedd yn rhan o Raglen Datblygu Gwledig yr UE.